Cymorth Cynllunio Cymru
Planning Aid Wales

Cylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru

Mehefin 2010

Ffarwel y golygydd

Hwn fydd y tro olaf i fi olygu cylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru. Byddaf yn gadael y mudiad i sefydlu fy musnes ymgynghoriaeth fy hun. Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i bawb ohonoch chi sy wedi gwneud fy ngwaith yma'n bleser. Boed yn aelodau staff o Gymorth Cynllunio Cymru, gwirfoddolwyr, partneriaid, cleientiaid neu bobl hollol di-gyswllt wnes i ffonio i fyny'n ddirybudd i ofyn am rywbeth - dych chi'n gwybod pwy ydych chi. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth, eich cyfeillgarwch a'r ysbrydoliaeth.

Bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn hysbysebu'n fuan am aelod newydd o staff a siwr o fod yn falch o glywed gynnoch chi os ydych chi a diddordeb.

Dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol,

Marika Fusser
Gweithiwr Datblygu'r Gogledd

Yn y rhifyn yma....

- Cyfarfod Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru
- Adroddiad Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru 2009-10
- Cyhoeddiadau canllaw wedi'u diweddaru
- Cynhadledd Cymorth Cynllunio 2010 - adnodd arlein
- Astudiaeth achos
- Digwyddiadau
- Cysylltu â ni

Cyfarfod Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru

Yn ôl i'r brig

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru ar 14 Gorffenaf 2010, 3.30yh, yn y Belle Vue Royal Hotel, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2BA. Bydd croeso cynnes i bawb.

Adroddiad Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru 2009-10

Yn ôl i'r brig

Bydd Adroddiad Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru 2009-10 ar gael cyn bo hir i'w lawrlwytho o *http://cymorthcynlluniocymru.org.uk/about-us/annualreport*

Cymorth Cynllunio Cymru yw'r elusen annibynnol sy'n gweithio tuag at system gynllunio Cymreig sy'n fwy teg ac yn fwy cynhwysol. Gyda chyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth annibynnol ar faterion cynllunio.

Rydym yn gweithio dros bobl a grwpiau sydd methu fforddio ymgynghorydd cynllunio neu sydd â

rhwystrau yn eu rhwystro rhag ymwneud â chynllunio. Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith gynyddol o wirfoddolwyr cymuned a chynllunio ac ystod o sefydliadau partner i ddosbarthu ystod gynyddol o wasanaethau. Amlinellir rhai o'r rhain yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

Os hoffech gael yr Adroddiad Blynyddol mewn gwahanol fformat neu fel copi caled, chysylltwch â phrif swyddfa Cymorth Cynllunio Cymru (gweler isod am y manylion).

Cyhoeddiadau canllaw wedi'u diweddaru

Yn ôl i'r brig

Mae Cymorth Cynllunio Cymru bellach wedi cyhoeddi' fersiynau diweddaraf o'r cyhoeddiadau canllaw canlynol:

Mae ***'Beth i'w wneud pan yn wynebu cais cynllunio yng Nghymru'*** yn rhoi gwybodaeth ar sut i ddod o hyd i geisiadau cynllunio a sut i gyflwyno sylwadau effeithiol a pherthnasol i'r awdurdod cynllunio lleol. Dylunwiyd y llyfryn ar gyfer pobl sydd am gefnogi neu wrthwynebu cais cynllunio yn eu hardal.

Mae ***'Canllaw i'r cyhoedd ar orfodaeth cynllunio yng Nghymru'*** yn rhoi arolwg o ymarferion a threfnweithiau gorfodaeth yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut i baratoi ar gyfer apêl gorfodaeth.Dyluniwyd y llyfryn ar gyfer pobl sydd am apelio yn erbyn gweithredu gorfodol gan yr awdurdod cynllunio lleol, ac hefyd pobl sy'n pryderu ynghylch datblygiad sydd efallai heb y caniatâd cynllunio angenrheidiol.

Mae '***Gweld y goleuni: Cynllunio a hawl i olau yng Nghymru'*** yn rhoi arolwg o'r materion sy'n ymwneud â goleuni a chysgodi yn y broses gynllunio yng Nghymru. Dyluniwyd y llyfryn ar gyfer pobl sy'n pryderu bod cais am ddatblygiad newydd yn mynd i gael effaith 'cysgodol' annerbyniol ar eu heiddo, ac mae hefyd ar gyfer datblygwyr sydd am sicrhau na fydd eu hadeilad yn achosi colli golau i eiddo cyfagos ar radd annerbyniol.

Mae'r cyhoeddiadau hyn i gyd ar gael yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho oddi ar *http://cymorthcynlluniocymru.org.uk/how-paw-can-help/information/publications.* Gallwch hefyd archebu copïau caled drwy cysylltu â phrif swyddfa Cymorth Cynllunio Cymru (gweler isod am y manylion).

Cynhadledd Cymorth Cynllunio 2010 - adnodd arlein

Yn ôl i'r brig

Cynhaliwyd Cynhadledd Cymorth Cynllunio'r DU 2010 yng Nghaerdydd ar 29 a 30 Ebrill 2010. Dan y teitl 'Cymorth Cynllunio – Ymgysylltu â Chymunedau' daeth â staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr cymorth cynllunio at ei gilydd ynghyd â chynrychiolwyr o grwpiau cymunedol a gwirfoddol ar draws y DU gyfan. Ffocws y gynhadledd oedd sut roedd gwasanaethau cynllunio'r DU eisoes yn ymgysylltu â chymunedau a sut y gallen wneud yn well yn y dyfodol.

Rydym bellach wedi creu adnodd arlein o gyflwyniadau, nodiadau a deunyddiau eraill sy'n berthnasol i'r gweithdai a gynhaliwyd yn ystod y gynhadledd. Gallwch ei ddarllen ar *http://cymorthcynlluniocymru.org.uk/conference-documentation*

Astudiaeth achos

Yn ôl i'r brig

Cefnogaeth gyson i drigolion Caerffili

Dros ddeunaw mis mae tair gwirfoddolwraig o Gymorth Cynllunio Cymru - Katherine Hughes, Helen Ridgway a Davina Powell - wedi rhoi dros dri chant awr er mwyn helpu'r gymuned lleol ymateb i faterion cynllunio cymhleth mewn cyswllt ag ailddatblygu safle Ysbyty Mwynwyr Caerffili.

Mae'r y tîm wedi rhoi help llaw mewn nifer o ffyrdd:

- Gweithio gyda'r Aelod Cynulliad lleol, Jeff Cuthbert, i ddatblygu pwyllgor rheoli prosiect gydag aelodau lleol a chynghorwyr proffesiynol.
- Siarad mewn digwyddiadau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a phroblemau.
- Datblygu partneriaeth gyda'r United Welsh Housing Association, sy'n gobeithio datblygu tai fforddiadwy ar weddill y safle.
- Gwneud arolygon lleol i adnabod y farn leol a chodi ymwybyddiaeth.
- Denu arian oddi wrth Gronfa'r Mileniwm ar gyfer marchnata ac o'r Gronfa Allweddol ar gyfer atsudiaeth dichonolrwydd.
- Sefydlu prosiect hanes, a fydd yn cael ei ddatblygu gan aelodau eraill o'r pwyllgor.
- Paratoi cynllun busnes a chynlluniau gweithredu ar gyfer y pwyllgor.
- Cyfarfod â'r Gweinidog perthnasol, swyddogion a staff y cyngor.
- Paratoi sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol.
- Darparu cyngor cynllunio strategol i'r pwyllgor.
- Mynychu cyfarfodydd pwyllgor.
- Creu gwefan er mwyn i'r pwyllgor rheoli ymgysllltu â'r gymuned.
- Cynghori'r pwyllgor rheoli ar ymgynghori â'r gymuned.

Meddai'r wirfoddolwraig, Katherine Hughes: *"Bod yn wirfoddolwraig gyda Chymorth Cynllunio Cymru greodd y cysylltiad cyntaf gyda'r gymuned. Sicrhaodd hefyd yswiriant indemniad ar gyfer gweithgareddau'r tîm oedd yn ymwneud â chynllunio. Mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar i Gymroth Cynllunio Cymru ac yn ystyried ffyrdd o ddangos ei werthfawrogiad i'w wirfoddolwyr a mudiad mor werthchweil."*

Digwyddiadau

Yn ôl i'r brig

Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir, cysylltwch â ni (gweler isod).

12 Gorffennaf, Aberystwyth
Cyfarfod Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru. Gweler uchod am fanylion.

14 Gorffennaf, Cwmbrân
Cynhadledd y Society of Local Council Clerks. Yn cynnwys stondin wybodaeth gan Gymorth Cynllunio Cymru.

11 Awst, Rhuthun
Diwrnod Tenantiaid Cymdeithas Tai Clwyd. Yn cynnwys stondin wybodaeth gan Gymorth Cynllunio Cymru. Am fanylion cysylltwch â Fred Breakell ar *fred.breakell@taiclwyd.com*

Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Llinell Gymorth: 02920 625 000

Ffôn y Brif Swyddfa: 02920 625 009

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Staff Cymorth Cynllunio Cymru

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr
Ffôn: 01766 762 244
Ebost: elwyn@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Marika Fusser, Gweithiwr Datblygu'r Gogledd a'r Canolbarth:
Ffôn: 01286 882 834
Ebost: marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Cyfeiriad y Brif Swyddfa:
Llawr cyntaf
174 Heol yr Eglwys Newydd
Y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 3PN

James Davies, Cynlluniwr a Rheolwr Achosion:
Ebost: james@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Ffôn: 02920 625 006

Maria Allen, Swyddog Hyfforddi
Ebost: maria@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Ffôn: 02920 625 006

Kay Sharman, Gweinyddydd a Swyddog Cyllid:
Ffôn: 02920 625 009
Ebost: kay@cymorthcynlluniocymru.org.uk